

RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) Bus Services (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

Sections 1 – 46	Adrannau 1 – 46
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 47 – 48	Adrannau 47 – 48
Long title	Teitl hir

Sam Rowlands

18

Section 4, page 2, line 34, after ‘services’, insert ‘, in particular with regard to the needs of rural areas’.
Adran 4, tudalen 2, llinell 37, ar ôl ‘lleol’, mewnosoder ‘, yn benodol o ran anghenion ardaloedd
gwledig’.

Ken Skates

7

Section 4, page 3, after line 3, insert –

‘() The seventh objective is to facilitate access by passengers using local bus services to places
where education, training, health services or social care services are provided.’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- '() Y seithfed amcan yw hwyluso mynediad gan deithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol i fannau lle y darperir addysg, hyfforddiant, gwasanaethau iechydd neu wasanaethau gofal cymdeithasol.'

Sam Rowlands

19

Section 4, page 3, after line 3, insert –

- '() The seventh objective is to promote investment in infrastructure used for the purposes of local bus services, in particular to improve the accessibility of local bus services.'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- '() Y seithfed amcan yw hybu buddsoddiad mewn seilwaith a ddefnyddir at ddibenion gwasanaethau bysiau lleol, yn benodol i wella hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol.'

Lee Waters

28

Section 4, page 3, after line 3, insert –

- '() The seventh objective is to work towards removing or reducing barriers that disincentivise the use of local bus services.'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- '() Y seithfed amcan yw gweithio tuag at ddileu neu leihau rhwystrau sy'n datgymhell defnyddio gwasanaethau bysiau lleol.'

The Welsh Ministers will be required to have regard to the objectives listed in section 4 when exercising functions under the Act. This amendment adds a new objective to section 4 for the Welsh Ministers to work towards removing or reducing barriers that disincentivise the use of local bus services. By extension, the Welsh Ministers will be required to report on progress towards this objective under section 20.

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r amcanion a restrir yn adran 4 wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae'r gwelliant hwn yn ychwanegu amcan newydd i adran 4 i Weinidogion Cymru weithio tuag at ddileu neu leihau rhwystrau sy'n datgymhell defnyddio gwasanaethau bysiau lleol. Drwy hynny, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar gynnydd tuag at yr amcan hwn o dan adran 20.

Ken Skates

8

Section 4, page 3, line 4, after 'section,' insert ' –

- () "education" includes higher education;'

Adran 4, tudalen 3, llinell 4, ar ôl 'hon,' mewnosoder ' –

- () mae "addysg" yn cynnwys addysg uwch;'

Ken Skates

9

Section 4, page 3, after line 5, insert –

- '() "health services" means services provided under section 3 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c. 42) (including services regarded for the purposes of the duty in subsection (1) of that section as being provided under that duty);

- () “social care services” means services that are treated as being regulated services for the purposes of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2).’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- ‘() ystyr “gwasanaethau iechyd” yw gwasanaethau a ddarperir o dan adran 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) (gan gynnwys gwasanaethau yr ystyrir at ddibenion y ddyletswydd yn is-adran (1) o’r adran honno eu bod yn cael eu darparu o dan y ddyletswydd honno);
- () ystyr “gwasanaethau gofal cymdeithasol” yw gwasanaethau a drinnir fel gwasanaethau rheoleiddiedig at ddibenion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2).’.

Sam Rowlands

20

Section 5, page 4, after line 5, insert –

- ‘(6) The Welsh Ministers must, before the end of the period of 12 months beginning on the day after the day on which this Act receives Royal Assent, lay before Senedd Cymru a statement on preparations for the coming into force of section 5(1)(c).
- (7) The statement must, in particular, address preparations in relation to organisational capacity.’.

Adran 5, tudalen 4, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- ‘(6) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol, osod gerbron Senedd Cymru ddatganiad ar baratoadau i adran 5(1)(c) ddod i rym.
- (7) Rhaid i’r datganiad, yn benodol, fynd i’r afael â pharatoadau mewn perthynas â chapasiti sefydliadol.’.

Peredur Owen Griffiths

29

Section 6, page 4, after line 32, insert –

- ‘() any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of persons with disabilities (within the meaning of section 6(1) of the Equality Act 2010 (c. 15));’.

Adran 6, tudalen 4, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

- ‘() unrhyw bersonau y mae’n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau personau ag anableddau (o fewn ystyr adran 6(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15));’.

Peredur Owen Griffiths

30

Section 8, page 6, after line 34, insert –

- ‘() any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of persons with disabilities (within the meaning of section 6(1) of the Equality Act 2010 (c. 15));’.

Adran 8, tudalen 6, ar ôl llinell 40, mewnosoder –

- '() unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau personau ag anableddau (o fewn ystyr adran 6(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15));'.

Ken Skates

10

Page 7, after line 9, insert a new section –

[] Revision of Welsh Bus Network Plan: local authority duties

- (1) This section applies where the views of a local authority are sought under section 8(3).
- (2) The local authority must, in giving its views, have regard to the needs of persons in its area who it considers use, or are likely to use, local bus services affected by the proposed revision, including in particular their needs relating to the accessibility of local bus services; and must consider whether for this purpose it should carry out consultation with persons in its area on the proposed revision.'

Tudalen 7, ar ôl llinell 10, mewnosoder adran newydd –

[] Diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru: dyletswyddau awdurdod lleol

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan geisir barn awdurdod lleol o dan adran 8(3).
- (2) Wrth roi ei farn, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i anghenion personau yn ei ardal y mae'n ystyried eu bod yn defnyddio gwasanaethau bysiau lleol, neu'n debygol o ddefnyddio gwasanaethau bysiau lleol, y mae'r diwygiad arfaethedig yn effeithio arnynt, gan gynnwys yn benodol eu hanghenion mewn perthynas â hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol; a rhaid iddo ystyried a ddylai, at y diben hwn, gynnal ymgynghoriad â phersonau yn ei ardal ynghylch y diwygiad arfaethedig.'

Sam Rowlands

21

Section 9, page 7, after line 35, insert –

- '(6) Before inviting the submission of tenders in relation to the award of local bus service contracts, the Welsh Ministers must –
- (a) have regard to the fact that small and medium-sized enterprises may face particular barriers in competing for a contract, and
 - (b) consider whether such barriers can be removed or reduced.
- (7) In considering whether such barriers can be removed or reduced, the Welsh Ministers must have regard to –
- (a) the need to offer a variety of local bus service contracts in a way that encourages competition from small and medium-sized enterprises in relation to the award of those contracts;
 - (b) the need to provide support to small and medium-sized enterprises in relation to the tendering procedure for local bus service contracts.
- (8) In this section, "small and medium-sized enterprises" has the same meaning as in section 123(1) of the Procurement Act 2023 (c. 54).'

Adran 9, tudalen 7, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

- ‘(6) Cyn gwahodd cyflwyno tendrau mewn perthynas â dyfarnu contractau gwasanaeth bysiau lleol, rhaid i Weinidogion Cymru –
- (a) rhoi sylw i’r ffaith y gall mentrau bach a chanolig eu maint wynebu rhwystrau penodol wrth gystadlu am gontract, a
 - (b) ystyried a ellir dileu neu leihau’r rhwystrau hynny.
- (7) Wrth ystyried a ellir dileu neu leihau’r rhwystrau hynny, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i’r canlynol –
- (a) yr angen i gynnig amrywiaeth o gontractau gwasanaeth bysiau lleol mewn ffordd sy’n annog cystadleuaeth gan fentrau bach a chanolig eu maint mewn perthynas â dyfarnu’r contractau hynny;
 - (b) yr angen i ddarparu cymorth i fentrau bach a chanolig eu maint mewn perthynas â’r weithdrefn dendro ar gyfer contractau gwasanaeth bysiau lleol.
- (8) Yn yr adran hon, mae i “mentrau bach a chanolig eu maint” yr un ystyr â “small and medium-sized enterprises” yn adran 123(1) o Ddeddf Caffael 2023 (p. 54).’.

*** Peredur Owen Griffiths**

31

Gyda chefnogaeth / Supported by: Sam Rowlands

Section 9, page 7, after line 35, insert –

- ‘(6) Before inviting the submission of tenders in relation to the award of local bus service contracts, the Welsh Ministers must –
- (a) have regard to the fact that public transport companies may face particular barriers in competing for a contract, and
 - (b) consider whether such barriers can be removed or reduced.
- (7) In this section, “public transport companies” means any company which was formed by one or more local authorities under section 67 of the Transport Act 1985 (c. 67) or section 24 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1).’.

Adran 9, tudalen 7, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

- ‘(6) Cyn gwahodd cyflwyno tendrau mewn perthynas â dyfarnu contractau gwasanaeth bysiau lleol, rhaid i Weinidogion Cymru –
- (a) rhoi sylw i’r ffaith y gall cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus wynebu rhwystrau penodol wrth gystadlu am gontract, a
 - (b) ystyried a ellir dileu neu leihau’r rhwystrau hynny.
- (7) Yn yr adran hon, ystyr “cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus” yw unrhyw gwmni a ffurfiwyd gan un neu ragor o awdurdodau lleol o dan adran 67 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67) neu adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1).’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

Delyth Jewell

40

Section 10, page 8, after line 8, insert –

- ‘() arrangements for onward or alternative travel for passengers when a local bus service is cancelled or otherwise terminated prior to reaching its planned final disembarkation point;’.

Adran 10, tudalen 8, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

- ‘() trefniadau ar gyfer teithio cysylltiol neu amgen i deithwyr pan gaiff gwasanaeth bysiau lleol ei ganslo neu ei derfynu fel arall cyn cyrraedd ei fan disgyn olaf arfaethedig;’.

Peredur Owen Griffiths

32

Section 10, page 8, line 13, after ‘vehicles),’, insert ‘maintenance and storage of vehicles and associated safety,’.

Adran 10, tudalen 8, llinell 14, ar ôl ‘gerbydau),’, mewnosoder ‘cynnal a chadw a storio cerbydau a diogelwch cysylltiedig,’.

Rhys ab Owen

1

Section 10, page 8, line 19, after ‘training’, insert ‘, including education and training for staff in relation to disability’.

Adran 10, tudalen 8, llinell 21, ar ôl ‘hyfforddiant’, mewnosoder ‘, gan gynnwys addysg a hyfforddiant ar gyfer staff mewn perthynas ag anabledd’.

To explicitly refer to disability training for staff being a contractual term that could be included in regulations made under section 10(1).

Cyfeirio'n benodol at hyfforddiant anabledd i staff fel teler contractiol y gellid ei gynnwys yn y rheoliadau a wneir o dan adran 10(1).

Rhys ab Owen

2

Section 10, page 8, after line 25, insert –

- ‘(r) information to be made available in an accessible format.’.

Adran 10, tudalen 8, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

- ‘(r) gwybodaeth sydd i’w rhoi mewn fformat hygyrch.’.

To provide that the contractual terms that may be included in regulations made under section 10(1) may include provision relating to information to be made available in accessible format.

Darparu y caiff y telerau contractiol y caniateir eu cynnwys yn y rheoliadau a wneir o dan adran 10(1) gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â gwybodaeth sydd i'w rhoi mewn fformat hygyrch.

Rhys ab Owen

3

Section 10, page 8, after line 25, insert –

- ‘(r) accessibility standards.’.

Adran 10, tudalen 8, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

- ‘(r) safonau hygyrchedd.’.



To provide that the contractual terms that may be included in regulations made under section 10(1) may include provision relating to 'accessibility standards'.

Darparu y caiff y telerau contractiol y caniateir eu cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan adran 10(1) gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â 'safonau hygyrchedd'.

Peredur Owen Griffiths

33

Section 10, page 8, after line 25, insert –

- ‘(r) facilities to be made available to people who use pedal cycles, other than pedal cycles which are motor vehicles for the purposes of the Road Traffic Act 1988 (c. 52).’.

Adran 10, tudalen 8, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

- ‘(r) cyfleusterau sydd i’w darparu i bobl sy’n defnyddio beiciau pedalau, ac eithrio beiciau pedalau sydd yn gerbydau modur at ddibenion Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (p. 52).’.

Sam Rowlands

22

Section 11, page 9, after line 21, insert –

- ‘(7) The Welsh Ministers may issue guidance to a person specified under subsection (4) in connection with the exercise of the functions of the Welsh Ministers under the Act relating to local bus service permits.
- (8) The statutory guidance may, amongst other things, address –
- (a) the criteria which will be applied in deciding whether a permit will or will not be granted;
 - (b) applications for local bus service permits;
 - (c) service quality standards;
 - (d) conditions attached to local bus service permits, including revising, removing and attaching new conditions;
 - (e) revocation and suspension of local bus service permits;
 - (f) appealing the refusal of an application for a local bus service permit;
 - (g) appealing conditions attached to a local bus service permit, including their revision;
 - (h) appealing the revocation or suspension of a local bus service permit.
- (9) The Welsh Ministers –
- (a) may issue statutory guidance to the persons specified under subsection (4) generally or to one or more particular person;
 - (b) may issue different statutory guidance to persons specified under subsection (4);
 - (c) may revise or revoke statutory guidance by further guidance;
 - (d) may revoke statutory guidance by issuing a notice to the relevant person to which it is directed.
- (10) The Welsh Ministers must ensure that statutory guidance, or a notice revoking such guidance, states –
- (a) that it is issued under this section, and

(b) the date on which it is to take effect.

- (11) The Welsh Ministers must arrange for statutory guidance, or a notice revoking such guidance, to be published.’.

Adran 11, tudalen 9, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- ‘(7) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i berson a bennir o dan is-adran (4) mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf sy’n ymwneud â thrwyddedau gwasanaeth bysiau lleol.
- (8) Caiff y canllawiau statudol, ymhlith pethau eraill, fynd i’r afael â’r canlynol –
- (a) y meini prawf a gymhwysir wrth benderfynu pa un a roddir trwydded ai peidio;
 - (b) ceisiadau am drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol;
 - (c) safonau ansawdd gwasanaeth;
 - (d) amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau gwasanaeth bysiau lleol, gan gynnwys eu diwygio, eu dileu a rhoi amodau newydd ynghlwm;
 - (e) dirymu trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol a’u hatal dros dro;
 - (f) apelio yn erbyn gwrthod cais am drwydded gwasanaeth bysiau lleol;
 - (g) apelio yn erbyn amodau sydd ynghlwm wrth drwydded gwasanaeth bysiau lleol, gan gynnwys eu diwygio;
 - (h) apelio yn erbyn dirymu trwydded gwasanaeth bysiau lleol neu ei hatal dros dro.
- (9) Caiff Gweinidogion Cymru –
- (a) dyroddi canllawiau statudol i’r personau a bennir o dan is-adran (4) yn gyffredinol neu i un neu ragor o bersonau penodol;
 - (b) dyroddi canllawiau statudol gwahanol i bersonau a bennir o dan is-adran (4);
 - (c) diwygio neu ddirymu canllawiau statudol drwy ganllawiau pellach;
 - (d) dirymu canllawiau statudol drwy ddyroddi hysbysiad i’r person perthnasol y maent wedi eu cyfeirio ato.
- (10) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod canllawiau statudol, neu hysbysiad sy’n dirymu canllawiau o’r fath, yn nodi –
- (a) eu bod wedi eu dyroddi neu ei fod wedi ei ddyroddi o dan yr adran hon, a
 - (b) y dyddiad y maent neu y mae i gymryd effaith.
- (11) Rhaid i Weinidogion Cymru drefnu bod canllawiau statudol, neu hysbysiad sy’n dirymu canllawiau o’r fath, yn cael eu cyhoeddi neu ei gyhoeddi.’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

Delyth Jewell

41

Section 13, page 10, after line 5, insert –

- ‘() arrangements for onward or alternative travel for passengers when a local bus service is cancelled or otherwise terminated prior to reaching its planned final disembarkation point;’.

Adran 13, tudalen 10, ar ôl llinell 6, mewnosoder –



- () trefniadau ar gyfer teithio cysylltiol neu amgen i deithwyr pan gaiff gwasanaeth bysiau lleol ei ganslo neu ei derfynu fel arall cyn cyrraedd ei fan disgyn olaf arfaethedig;’.

Peredur Owen Griffiths

34

Section 13, page 10, line 10, after ‘vehicles),’, insert ‘maintenance and storage of vehicles and associated safety,’.

Adran 13, tudalen 10, llinell 11, ar ôl ‘gerbydau),’, mewnosoder ‘cynnal a chadw a storio cerbydau a diogelwch cysylltiedig,’.

Rhys ab Owen

4

Section 13, page 10, line 16, after ‘training’, insert ‘, including education and training for staff in relation to disability’.

Adran 13, tudalen 10, llinell 18, ar ôl ‘hyfforddiant’, mewnosoder ‘, gan gynnwys addysg a hyfforddiant ar gyfer staff mewn perthynas ag anabledd’.

To explicitly refer to disability training for staff being a permit condition that could be included in regulations made under section 13(2).

Cyfeirio'n benodol at hyfforddiant anabledd i staff fel amod trwydded y gellid ei gynnwys yn y rheoliadau a wneir o dan adran 13(2).

Rhys ab Owen

5

Section 13, page 10, after line 22, insert –

- ‘(r) information to be made available in an accessible format.’.

Adran 13, tudalen 10, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- ‘(r) gwybodaeth sydd i'w rhoi mewn fformat hygrych.’.

To provide that the permit conditions that may be included in regulations made under section 13(2) may include provision relating to information to be made available in accessible format.

Darparu y caiff amodau'r drwydded y caniateir eu cynnwys yn y rheoliadau a wneir o dan adran 13(2)gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â gwybodaeth sydd i'w rhoi mewn fformat hygrych.

Rhys ab Owen

6

Section 13, page 10, after line 22, insert –

- ‘(r) accessibility standards.’.

Adran 13, tudalen 10, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- ‘(r) safonau hygrychedd.’.

To provide that the permit conditions that may be included in regulations made under section 13(2) may include provision relating to 'accessibility standards'.

Darparu y caiff amodau'r drwydded y caniateir eu cynnwys yn y rheoliadau a wneir o dan adran 13(2)gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â 'safonau hygrychedd'.

Peredur Owen Griffiths

35

Section 13, page 10, after line 22, insert –

- ‘(r) facilities to be made available to people who use pedal cycles, other than pedal cycles which are motor vehicles for the purposes of the Road Traffic Act 1988 (c. 52).’.

Adran 13, tudalen 10, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- ‘(r) cyfleusterau sydd i’w darparu i bobl sy’n defnyddio beiciau pedalau, ac eithrio beiciau pedalau sydd yn gerbydau modur at ddibenion Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (p. 52).’.

Sam Rowlands

23

Section 17, page 13, line 12, leave out –

‘if they are satisfied that doing so would be a more effective way of fulfilling that duty than entering into a local bus service contract under section 9 in respect of the service’

and insert –

‘where –

- (a) a local bus service contract is terminated or otherwise comes to an end,
- (b) a local bus service permit is revoked, suspended or otherwise comes to an end, or
- (c) it is not otherwise possible to secure the provision of that service by entering into a local bus service contract or granting a local bus service permit’.

Adran 17, tudalen 13, llinell 12, hepgorer –

‘os ydynt wedi eu bodloni y byddai gwneud hynny yn ffordd fwy effeithiol o gyflawni’r ddyletswydd honno nag ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 9 mewn perthynas â’r gwasanaeth’

a mewnosoder –

‘pan –

- (a) fo contract gwasanaeth bysiau lleol yn cael ei derfynu neu’n dod i ben fel arall,
- (b) fo trwydded gwasanaeth bysiau lleol yn cael ei dirymu, yn cael ei hatal dros dro neu’n dod i ben fel arall, neu
- (d) na fo’n bosibl fel arall sicrhau y darperir y gwasanaeth hwnnw drwy ymrwymo i gontract gwasanaeth bysiau lleol neu roi trwydded gwasanaeth bysiau lleol’.

Sam Rowlands

24

Page 13, after line 15, insert a new section –

‘Passenger Charter

[] **Passenger Charter**

- (1) The Welsh Ministers must, before the end of the period of one year beginning with the day on which this section comes into force, publish a passenger charter in relation to local bus services.
- (2) The passenger charter must set out what persons using or likely to use local bus services can expect in relation to the following matters when using local bus services –
 - (a) service quality standards;
 - (b) ticketing and fares;
 - (c) information provision;
 - (d) handling of delays, cancellation and other disruption to services;
 - (e) accessibility of local bus services and assistance available to passengers with accessibility needs;
 - (f) interaction of operators and those involved in the planning or delivery of services with persons using or likely to use local bus services, including in connection with customer feedback, customer service arrangements, procedures for making complaints (including escalation and appeals) and reporting incidents;
 - (g) facilities and amenities;
 - (h) any other matters considered necessary.
- (3) The passenger charter may address any other matters that the Welsh Ministers consider appropriate.
- (4) The Welsh Ministers must keep the passenger charter under review.
- (5) The Welsh Ministers –
 - (a) must make any revision to the passenger charter that they consider is required to ensure that it continues to address the matters set out in subsection (2);
 - (b) may make any other revision to the passenger charter that they consider appropriate.
- (6) After making any revision to the passenger charter, the Welsh Ministers must as soon as reasonably practicable publish the revised passenger charter.
- (7) In preparing and reviewing the passenger charter, the Welsh Ministers must consult –
 - (a) where the Welsh Ministers consider that any part of the area of a local authority may be affected, that authority;
 - (b) where the Welsh Ministers consider that any part of the area of a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1) may be affected, that committee;
 - (c) where the Welsh Ministers consider that any part of the area of a National Park authority for a National Park in Wales may be affected, that authority;
 - (d) any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of operators of local bus services that the Welsh Ministers consider appropriate;
 - (e) any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of employees of operators of local bus services that the Welsh Ministers consider appropriate;
 - (f) any persons appearing to the Welsh Ministers to represent the interests of persons using or likely to use affected local bus services that the Welsh Ministers consider appropriate;

(g) any other person that the Welsh Ministers consider appropriate.

- (8) In considering who it would be appropriate to consult for the purposes of subsection (7)(g), the Welsh Ministers must give consideration to groups whose needs are, in the view of the Welsh Ministers, under-represented or given insufficient weight in discourses around local bus services.’.

Tudalen 13, ar ôl llinell 17, mewnosoder adran newydd –

‘Siarter Teithwyr

[] Siarter Teithwyr

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r adran hon i rym, gyhoeddi siarter teithwyr mewn perthynas â gwasanaethau bysiau lleol.
- (2) Rhaid i’r siarter teithwyr nodi’r hyn y gall personau sy’n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol, neu sy’n debygol o ddefnyddio’r gwasanaethau hynny, ei ddisgwyl mewn perthynas â’r materion a ganlyn wrth ddefnyddio gwasanaethau bysiau lleol –
 - (a) safonau ansawdd gwasanaeth;
 - (b) tocynnu a thaliadau teithio;
 - (c) darparu gwybodaeth;
 - (d) ymdrin ag achosion o oedi, canslo a mathau eraill o darfu ar wasanaethau;
 - (e) hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol a’r cymorth sydd ar gael i deithwyr sydd ag anghenion hygyrchedd;
 - (f) rhyngweithio rhwng gweithredwyr, a’r rhai sy’n gysylltiedig â chynllunio neu ddarparu gwasanaethau, a phersonau sy’n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol neu sy’n debygol o ddefnyddio’r gwasanaethau hynny, gan gynnwys mewn cysylltiad ag adborth gan gwsmeriaid, trefniadau gwasanaeth i gwsmeriaid, gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion (gan gynnwys uwchgyfeirio ac apelau) ac adrodd ar ddigwyddiadau;
 - (g) cyfleusterau ac amwynderau;
 - (h) unrhyw faterion eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.
- (3) Caiff y siarter teithwyr fynd i’r afael ag unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu’r siarter teithwyr yn barhaus.
- (5) O ran Gweinidogion Cymru –
 - (a) rhaid iddynt wneud unrhyw ddiwygiad i’r siarter teithwyr y maent yn ystyried ei fod yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y siarter yn parhau i fynd i’r afael â’r materion a nodir yn is-adran (2);
 - (b) cânt wneud unrhyw ddiwygiad arall i’r siarter teithwyr y maent yn ystyried ei fod yn briodol.
- (6) Ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiad i’r siarter teithwyr, rhaid i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol gyhoeddi’r siarter teithwyr ddiwygiedig.
- (7) Wrth lunio ac adolygu’r siarter teithwyr, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r canlynol –

- (a) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gellid effeithio ar unrhyw ran o ardal awdurdod lleol, yr awdurdod hwnnw;
 - (b) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gellid effeithio ar unrhyw ran o ardal cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1), y pwyllgor hwnnw;
 - (c) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gellid effeithio ar unrhyw ran o ardal awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru, yr awdurdod hwnnw;
 - (d) unrhyw bersonau y mae’n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;
 - (e) unrhyw bersonau y mae’n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau cyflogaion gweithredwyr gwasanaethau bysiau lleol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;
 - (f) unrhyw bersonau y mae’n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy’n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol yr effeithir arnynt, neu sy’n debygol o ddefnyddio’r gwasanaethau hynny, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol;
 - (g) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.
- (8) Wrth ystyried â phwy y byddai’n briodol ymgynghori at ddibenion is-adran (7)(g), rhaid i Weinidogion Cymru ystyried grwpiau y mae Gweinidogion Cymru o’r farn nad yw eu hanghenion yn cael eu cynrychioli’n ddigonol neu na roddir digon o bwys ar eu hanghenion mewn disgyrsiau ynghylch gwasanaethau bysiau lleol.’.

Sam Rowlands

25

Page 15, after line 19, insert a new section –

‘Statement in relation to planned expenditure

[] Statement in relation to planned expenditure

- (1) The Welsh Ministers must, as soon as reasonably practicable following the coming into force of this section, lay before Senedd Cymru a statement containing information relating to their planned expenditure in connection with their duty under section 5(1)(c), and how financial assistance provided by local authorities under section 35 may be used with respect to that duty.
- (2) That statement must address –
 - (a) the policy of the Welsh Ministers in relation to any reliance on financial assistance given by local authorities to satisfy their duty under section 5(1)(c);
 - (b) the policy of the Welsh Ministers in relation to the reinvestment of financial assistance provided by a local authority in relation to any part of the area of the relevant local authority;
 - (c) information to be made available to the public in relation to the use of financial assistance given by a local authority in connection with the provision of a local bus service.
- (3) The Welsh Ministers must arrange for the statement to be published.’.



Tudalen 15, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

‘Datganiad mewn perthynas â gwariant arfaethedig

[] Datganiad mewn perthynas â gwariant arfaethedig

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl i’r adran hon ddod i rym, osod gerbron Senedd Cymru ddatganiad yn cynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud â’u gwariant arfaethedig mewn cysylltiad â’u dyletswydd o dan adran 5(1)(c), a sut y caniateir defnyddio cymorth ariannol a ddarperir gan awdurdodau lleol o dan adran 35 mewn perthynas â’r ddyletswydd honno.
- (2) Rhaid i’r datganiad hwnnw fynd i’r afael â’r canlynol –
 - (a) polisi Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar gymorth ariannol a roddir gan awdurdodau lleol i fodloni eu dyletswydd o dan adran 5(1)(c);
 - (b) polisi Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag ailfuddsoddi cymorth ariannol a ddarperir gan awdurdod lleol mewn perthynas ag unrhyw ran o ardal yr awdurdod lleol perthnasol;
 - (c) gwybodaeth sydd i’w rhoi i’r cyhoedd mewn perthynas â defnyddio cymorth ariannol a roddir gan awdurdod lleol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth bysiau lleol.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru drefnu bod y datganiad yn cael ei gyhoeddi.’.

Peredur Owen Griffiths

36

Section 26, page 18, line 14, after ‘service’, insert ‘, and punctuality of services’.

Adran 26, tudalen 18, llinell 16, ar ôl ‘gwasanaeth’, mewnosoder ‘, a phrydlondeb gwasanaethau’.

Peredur Owen Griffiths

37

Section 28, page 19, line 37, after ‘service’, insert ‘, and punctuality of services’.

Adran 28, tudalen 19, llinell 37, ar ôl ‘gwasanaeth’, mewnosoder ‘, a phrydlondeb gwasanaethau’.

Peredur Owen Griffiths

38

Section 29, page 20, line 27, after ‘service’, insert ‘, and punctuality of services’.

Adran 29, tudalen 20, llinell 28, ar ôl ‘gwasanaeth’, mewnosoder ‘, a phrydlondeb gwasanaethau’.

Sam Rowlands

26

Section 35, page 23, after line 11, insert –

- ‘() Before giving financial assistance under subsection (1), the Welsh Ministers and the relevant local authority must reach an agreement in relation to the use of that financial assistance.’.

Adran 35, tudalen 23, ar ôl llinell 11, mewnosoder –



- ‘() Cyn rhoi cymorth ariannol o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru a’r awdurdod lleol perthnasol ddod i gytundeb mewn perthynas â’r defnydd o’r cymorth ariannol hwnnw.’.

*** Peredur Owen Griffiths**

39

Gyda chefnogaeth / Supported by: Sam Rowlands

Page 23, after line 18, insert a new section –

[] Passenger forum

- (1) A local authority must establish a forum (a “passenger forum”) for discussion of issues relating to local bus services in the area of the local authority, with a view to providing the local authority with, in particular –
 - (a) information and advice on the local bus service needs of persons in the area of the local authority;
 - (b) information and advice relating to the continuous improvement of the reliability, safety, affordability and accessibility of local bus services in the area of the local authority;
 - (c) any other information and advice that the local authority considers appropriate in relation to local bus services in its area.
- (2) The local authority must, in the exercise of any functions under this Act, have regard to any information or advice provided in the forum on the matters specified in subsection (1).
- (3) The local authority must –
 - (a) take reasonable steps to ensure that it has established the passenger forum as soon as reasonably practicable following the coming into force of this section,
 - (b) make arrangements for the forum to meet at least once in each financial year, and
 - (c) facilitate meetings of the forum and take reasonable steps to ensure that the forum is able to effectively discuss issues, and provide information and advice, as described in subsection (1).
- (4) The local authority –
 - (a) must take reasonable steps to ensure that the passenger forum includes persons who –
 - (i) use or are likely to use local bus services;
 - (ii) represent the interests of persons using or likely to use local bus services that the local authority considers appropriate;
 - (b) may include in the forum any other person that the local authority considers appropriate.
- (5) The local authority must, in exercising its functions under subsection (3), take reasonable steps to ensure that the forum membership is representative of a range of views concerning local bus services in the area of the local authority.’.

Tudalen 23, ar ôl llinell 18, mewnosoder adran newydd –

[] Fforwm teithwyr

- (1) Rhaid i awdurdod lleol sefydlu fforwm (“fforwm teithwyr”) i drafod materion sy’n ymwneud â gwasanaethau bysiau lleol yn ardal yr awdurdod lleol, gyda golwg ar ddarparu’n benodol y canlynol i’r awdurdod lleol –
 - (a) gwybodaeth a chynghor ar anghenion gwasanaeth bysiau lleol personau yn ardal yr awdurdod lleol;
 - (b) gwybodaeth a chynghor sy’n ymwneud â gwella’n barhaus ddibynadwyedd, diogelwch, fforddiadwyedd a hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol yn ardal yr awdurdod lleol;
 - (c) unrhyw wybodaeth a chynghor arall y mae awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol mewn perthynas â gwasanaethau bysiau lleol yn ei ardal.
- (2) Rhaid i’r awdurdod lleol, wrth arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, roi sylw i unrhyw wybodaeth neu gynghor a ddarperir yn y fforwm ar faterion a bennir yn is-adran (1).
- (3) Rhaid i’r awdurdod lleol –
 - (a) cymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod wedi sefydlu’r fforwm teithwyr cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl i’r adran hon ddod i rym,
 - (b) gwneud trefniadau i’r fforwm gwrdd o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol, ac
 - (c) hwyluso cyfarfodydd y fforwm a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod y fforwm yn gallu trafod materion yn effeithiol, a darparu gwybodaeth a chynghor, fel y disgrifir yn is-adran (1).
- (4) O ran yr awdurdod lleol –
 - (a) rhaid iddo gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y fforwm teithwyr yn cynnwys personau sydd –
 - (i) yn defnyddio gwasanaethau bysiau lleol neu’n debygol o ddefnyddio’r gwasanaethau hynny;
 - (ii) yn cynrychioli buddiannau personau sy’n defnyddio gwasanaethau bysiau lleol, neu sy’n debygol o ddefnyddio’r gwasanaethau hynny, y mae’r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol;
 - (b) caiff gynnwys yn y fforwm unrhyw berson arall y mae’r awdurdod lleol yn ystyried ei fod yn briodol.
- (5) Rhaid i’r awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (3), gymryd camau rhesymol i sicrhau bod aelodaeth y fforwm yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau yn ymwneud a gwasanaethau bysiau lleol yn ardal yr awdurdod lleol.’.

Ken Skates

11

Section 36, page 23, line 24, leave out ‘it would not otherwise be so treated) as taking place for the purposes of TUPE, in consequence of arrangements made under this Act in respect of the provision of local bus services’ and insert ‘this would not otherwise be the case) as taking place for the purposes of TUPE, upon –

- (a) a local bus service contract being entered into under section 9, or terminated or varied, whether under the terms of the contract or otherwise;

- (b) a local bus service permit being granted under section 11, or revoked or varied, or ceasing to have effect by virtue of the expiry of the period specified under section 12(1);
- (c) the Welsh Ministers undertaking the provision of a local bus service under section 17, or ceasing to provide such a service’.

Adran 36, tudalen 23, llinell 24, hepgorer ‘na fyddai’n cael ei drin felly fel arall), o ganlyniad i drefniadau a wneir o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â darparu gwasanaethau bysiau lleol’ a mewnosoder ‘nad hyn fyddai’r achos fel arall), pan –

- (a) ymrwymir i gontract gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 9, neu y’i terfynir neu y’i hamrywir, pa un ai o dan delerau’r contract neu fel arall;
- (b) rhoddir trwydded gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 11, neu y’i dirymir neu y’i hamrywir, neu fo’n peidio â chael effaith am fod y cyfnod a bennir o dan adran 12(1) wedi dod i ben;
- (c) bydd Gweinidogion Cymru yn ymgymryd â darparu gwasanaeth bysiau lleol o dan adran 17, neu’n peidio â darparu gwasanaeth o’r fath’.

Ken Skates

12

Section 36, page 23, after line 31, insert –

- ‘() may make further provision in connection with the application of TUPE in respect of the relevant transfer.’.

Adran 36, tudalen 23, llinell 27, hepgorer is-adran (2) a mewnosoder –

- ‘() Pan fo rheoliadau’n gwneud darpariaeth o dan is-adran (1) ar gyfer amgylchiadau pan fo trosglwyddiad perthnasol i’w drin fel pe bai’n digwydd at ddibenion Rheoliadau TUPE –
 - (a) rhaid iddynt hefyd wneud darpariaeth i’r trosglwyddiad perthnasol hwnnw gael ei drin fel pe bai’n drosglwyddiad perthnasol, o fewn yr ystyr a roddir i “relevant transfer” yn Rheoliadau TUPE, at ddibenion adrannau 257 a 258 o Ddeddf Pensiynau 2024, ac unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 258 o’r Ddeddf honno;
 - (b) cânt wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â chymhwyso Rheoliadau TUPE mewn perthynas â’r trosglwyddiad perthnasol.’.

Ken Skates

13

Section 36, page 23, line 32, leave out subsections (3) to (4).

Adran 36, tudalen 23, llinell 33, hepgorer is-adrannau (3) hyd at (4).

Ken Skates

14

Section 36, page 24, leave out lines 14 to 15.

Adran 36, tudalen 24, hepgorer llinellau 14 hyd at 15.

Ken Skates

16

Schedule 1, page 33, line 21, leave out ‘(a)’ and insert ‘(c)’.

Atodlen 1, tudalen 33, llinell 22, hepgorer ‘(a)’ a mewnosoder ‘(c)’.

Ken Skates

17

Schedule 1, page 34, leave out lines 3 to 6.

Atodlen 1, tudalen 34, hepgorer llinellau 3 hyd at 6.

Sam Rowlands

27

Section 47, page 31, after line 14, insert –

‘() section 5 [*first subsection to be inserted by amendment 20*] and [*second subsection to be inserted by amendment 20*];’.

Adran 47, tudalen 31, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

‘() adran 5 [*yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan welliant 20*] a [*yr ail-is-adran i’w mewnosod gan welliant 20*];’.

Ken Skates

15

Section 47, page 31, leave out line 30.

Adran 47, tudalen 31, hepgorer llinell 31.